Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James
Ffordd Y Rhondda
Pontypridd
CF37 1HF

12/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Mireinio prosesau hunanwerthuso

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi mynd ati'n ddiwyd i fireinio eu prosesau hunanwerthuso. Mae'r pennaeth a'r dirprwy wedi mynychu cyrsiau dysgu proffesiynol buddiol ac wedi ailsefydlu cylch monitro, gwerthuso ac adolygu defnyddiol.
- Maent wedi sicrhau bod eu prosesau'n  arwain at adroddiadau monitro mwy pwrpasol sy'n canolbwyntio'n fanwl ar gynnydd disgyblion yn hytrach na disgrifiadau o weithgareddau. Maent yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn ddefnyddiol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn pennu targedau manwl a chlir ar gyfer disgyblion ac athrawon.
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac o'r staff cyfan. Maent yn sicrhau bod trefniadau synhwyrol ar waith i ailymweld â meysydd penodol yr oedd angen sylw pellach arnynt er mwyn gwirio cynnydd a chynllunio camau ychwanegol, pe bai angen.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Erbyn hyn, mae ystod eang o weithdrefnau hunanwerthuso yn weithredol yn gyson, gyda arweinwyr yn rhannu eu darganfyddiadau yn amserol gyda'r staff. Mae hyn yn eu cefnogi i addasu a mireinio'r ddarpariaeth yn ôl yr angen, gan effeithio'n gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

### Rhannu arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol

- Mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad drwy gysoni arferion addysgu effeithiol. Maent wedi creu canllawiau addysgu penodol a chysoni'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion.
- Drwy rannu arferion addysgu effeithiol, mae arweinwyr wedi sicrhau eu bod yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau yn fwriadus mewn gweithgareddau cyfoethog drwy fabwysiadu dull ymholi.
- Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yn y dull ymholi. Maent yn arfogi athrawon i gynnal ymchwil gweithredol ac i arbrofi â gwahanol ddulliau wrth ddatblygu annibyniaeth disgyblion.
- Maent yn hyrwyddo amgylchedd o ddysgu proffesiynol parhaus ac yn annog athrawon i rannu arferion gorau gyda'i gilydd yn bwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu.
- O ganlyniad i'r dull ymholi a rhannu arferion, mae disgyblion trwy'r ysgol yn gwneud penderfyniadau annibynnol am beth maent yn ei ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith. Maent yn frwdfrydig wrth drafod eu gwaith ac yn gwneud dewisiadau annibynnol yn hyderus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6742362

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol